
**Datganiad Canlyniad Gradd**

**Proffil Dosbarthu Graddau Sefydliadol**


Ym Mhrifysgol Metropolitan Caerdydd rydym yn ymdrechu i fod mor dryloyw ag y gallwn, mae hyn yn sicrhau cywirdeb ein dyfarniadau a'r gwerth a roddwn ar y Safonau Ansawdd a Gwella ein dyfarniadau. Mae'r ddogfen hon yn rhan flynyddol o fusnes craidd y brifysgol ac mae'n rhoi hyder i'n Bwrdd Academaidd Cyfun ac i'n Bwrdd Llywodraethwyr, trwy ein datganiad sicrwydd i HEFCW bod y Brifysgol yn cwrdd â safonau cenedlaethol ar gyfer safonau gradd.

Tuag at ddiwedd y flwyddyn academaidd 2019/20 roedd cefnogaeth gynyddol yn y sector AU i'r angen i adfywio polisïau rhwyd ddiogelwch ar gyfer Blwyddyn Academaidd 2019/20. Roedd hyn oherwydd effaith Covid-19 ar brofiad myfyrwyr a lles myfyrwyr. O'r herwydd, oherwydd natur yr aflonyddwch a'r cyfyngiadau ar Covid ym mlwyddyn academaidd 2019/20, roedd Met Caerdydd yn rhagweithiol wrth fabwysiadu polisi rhwydi diogelwch a dim niwed. Roedd yn rhaid i'r polisi newydd hwn gwmpasu pob myfyriwr a chreu cydraddoldeb ar draws poblogaeth y myfyrwyr.

Dangosir proffil dosbarthiad gradd Prifysgol Metropolitan Caerdydd ar gyfer y blynyddoedd academaidd 2016/17 i 2019/20 yn y tabl isod.



Mae'r tabl isod yn dangos y dosbarthiadau dros amser:




Mae'r data yn dangos bod proffil y Brifysgol o raddau anrhydedd Dosbarth Cyntaf ac Ail Ddosbarth Uwch (anrhydedd da) wedi dangos twf cymesur dros y cyfnod hwn.

Mae'r tabl isod yn gymhariaeth sector, sy'n dangos bod y canlyniadau myfyrwyr a gyflawnir gan fyfyrwyr Prifysgol Metropolitan Caerdydd yn cyd-fynd yn fras â chanlyniadau ehangach y sector.

| | Dosbarthiad y Radd Gyntaf | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Blwyddyn academaidd** | **Anrhydedd dosbarth cyntaf** | **Anrhydedd ail ddosbarth uwch** | **Anrhydedd ail ddosbarth is** | **Anrhydedd trydydd dosbarth/Pasio** |
| 2015/16 | 23% | 49% | 22% | 5% |
| 2016/17 | 26% | 49% | 20% | 5% |
| 2017/18 | 28% | 48% | 19% | 5% |
| 2018/19 | 28% | 48% | 19% | 4% |
| 2019/20 | 35% | 47% | 15% | 3% |

Mae'r tabl isod yn dangos Canran y Graddau Da a ddyfarnwyd i Fyfyrwyr Gradd Gyntaf yn ôl Blwyddyn Academaidd a Nodweddion y Myfyrwyr

| BLWYACA | Anrh da | Benywaidd | Gwryw | Aeddfed | Ifanc | Anabl | BAME |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 15/16 | 63.7% | 69.9% | 56.2% | 59.8% | 72.1% | 68.2% | 47.2% |
| 16/17 | 65.2% | 70.9% | 58.7% | 59.0% | 78.0% | 73.4% | 43.5% |
| 17/18 | 67.4% | 74.4% | 58.9% | 61.9% | 79.9% | 72.8% | 47.2% |
| 18/19 | 70.6% | 73.9% | 66.6% | 65.7% | 80.4% | 73.4% | 55.3% |
| 19/20 | 79.9% | 82.8% | 76.4% | 76.8% | 85.6% | 78.2% | 68.7% |

**Arferion Asesu a Marcio**

Mae arferion asesu a marcio'r Brifysgol yn rhoi pwyslais cryf ar aliniad adeiladol y canlyniadau dysgu a fwriadwyd, y dulliau asesu a'r meini prawf asesu i sicrhau bod yr asesiad yn deg, yn ddilys ac yn ddibynadwy. Cymeradwyir rhaglenni i'w cyflwyno yn dilyn cadarnhad bod y cwricwlwm (gan gynnwys dulliau asesu arfaethedig) yn cyd-fynd â Fframwaith Cymwysterau Addysg Uwch/FFCCHC ac unrhyw Ddatganiadau Meincnod Pwnc ASA perthnasol neu ofynion y Cyrff Proffesiynol, Statudol a Rheoleiddiol. Mae rheoliadau sy'n llywodraethu marcio a chymedroli ar gael i staff a myfyrwyr yn y Llawlyfr Academaidd ac yn ceisio sicrhau bod y marcio'n deg, yn gyson ac yn dryloyw. Mae disgrifwyr bandiau'r Brifysgol yn llywio marcwyr a chymedrolwyr i'r safonau academaidd y mae disgwyl i fyfyrwyr eu cyflawni er mwyn derbyn marciau mewn categori penodol sy'n cydweddi a ddisgrifwyr Fframwaith Cymwysterau Addysg Uwch. Mae priodoldeb meini prawf asesu rhaglenni yn cael ei fonitro'n flynyddol gan arholwr allanol. Yn eu hadroddiad blynyddol mae'n ofynnol i Arholwyr Allanol gadarnhau a yw safonau'n briodol ar gyfer y dyfarniad ac wedi'u halinio â lefel berthnasol datganiadau meincnod pwnc Fframwaith Cymwysterau Addysg Uwch ac ASA. Mae'n ofynnol iddynt hefyd farnu a yw safonau dyfarniadau yn debyg i safonau sefydliadau eraill a, lle bo hynny'n berthnasol, eu bod yn cwrdd â gofynion y Cyrff Proffesiynol, Statudol a Rheoleiddiol. Mae Arholwyr Allanol yn craffu ar sampl benodol o waith a aseswyd fel eu bod yn gallu llunio barn am safonau perfformiad myfyrwyr a chysondeb a thegwch y prosesau asesu. Mae ymgysylltiad Met Caerdydd yn y peilot o'r Prosiect Gwella Safonau Gradd AU (AHE) wedi galluogi staff y Brifysgol i gymryd rhan mewn cyflwyno Rhaglen Datblygu Arholwyr Allanol AHE ac wedi arwain at fwy o aliniad rhwng proses sefydlu'r Brifysgol ar gyfer Arholwyr Allanol a'r rhaglen AHE. Mapiwyd arferion asesu'r Brifysgol yn erbyn Cod Ansawdd diwygiedig yr ASA yn 2019 a chadarnhawyd eu bod yn parhau i fapio i Ddisgwyliadau ac Arferion ASA. Ar gyfer rhaglenni a ddarperir gyda phartneriaid, mae arferion asesu a marcio'r un fath â'r rhai a ddisgrifir uchod.

**Llywodraethu Academaidd**

Mae Bwrdd Academaidd y Brifysgol yn gyfrifol am safonau ac ansawdd yr holl ddarpariaeth sy'n arwain at ddyfarnu credyd yn ei enw. Mae'r Pwyllgor Ansawdd a Safonau Academaidd (PASA) wedi'i rymuso gan y Bwrdd Academaidd i oruchwylio, ar ei ran, safonau academaidd ei ddyfarniadau ac am ansawdd profiad dysgu myfyrwyr. Yn flynyddol, mae'r Brifysgol, trwy waith ei PASA, yn sicrhau ei rheoleiddiwr HEFCW bod 'safonau'r dyfarniadau yr ydym yn gyfrifol amdanynt wedi'u gosod a'u cynnal yn briodol.' Mae'n gwneud hynny yn dilyn craffu ar gyfres o adroddiadau ar brosesau cymeradwyo ac adolygu rhaglenni'r Brifysgol, prosesau monitro blynyddol, prosesau asesu, a threfniadau ar gyfer Byrddau Arholi. Mae'r ymarfer hwn yn cynnwys craffu ar adroddiadau Arholwyr Allanol ynghylch a yw dyluniadau asesu yn briodol, meini prawf a chynlluniau marcio wedi'u gosod ar y lefel gywir ac a yw prosesau asesu yn weddol ddibynadwy a thrylwyr. Ar gyfer rhaglenni a ddarperir gyda phartneriaid, mae arfer awdurdod a goruchwyliaeth yr un fath â'r hyn a ddisgrifir uchod.

**Algorithm Dosbarthu**

Mae dau algorithm ar gael ar gyfer graddau anrhydedd israddedig, ond dim ond un sy'n cael ei ddefnyddio ar gyfer pob dyfarniad - mae'r algorithm perthnasol wedi'i nodi ym mhob dogfen Manyleb Rhaglen a ddilyswyd.

Mae'r holl algorithmau a dulliau cyfrifo dyfarniadau wedi'u nodi yn ein prif Reoliadau Asesu, sydd ar gael yma:
https://www.cardiffmet.ac.uk/registry/academichandbook/Documents/AH1_04_01.pdf

| | Paragraff |
|---|---|
| Graddau Anrhydedd Israddedig | 10.1 |
| Graddau Sylfaen, HNC a HND | 10.1 |
| CertHE, DipHE | 10.1 |
| BTEC | 10.18 |
| Meistr Ôl-raddedig, PGDip a PGCert | 10.16-10.17 |

Gellir uwchraddio dyfarniad myfyriwr os yw'n cwrdd â meini prawf llym, y manylir arnynt hefyd ym mharagraff 10.2 o'n prif Reoliadau Asesu (dolen uchod).

Pan gyfrifir marc dyfarniad cyffredinol, caiff ei nodi gan y system myfyrwyr os yw o fewn yr ystod rifiadol i'w huwchraddio, yna bydd Byrddau Arholi unigol yn penderfynu a yw am gael ei uwchraddio, trwy asesu a yw proffil y myfyriwr yn cwrdd ag unrhyw un o'r meini prawf berthnasol.

Mae'n ofynnol i fyfyrwyr gwblhau'r holl fodiwlau sydd wedi'u cofrestru yn erbyn eu rhaglen yn llwyddiannus er mwyn bod yn gymwys ar gyfer dyfarniad terfynol. Pan fydd myfyriwr yn aflwyddiannus ar yr ymgais gyntaf i basio asesiad, gellir cynnig uchafswm o un neu ddau o gyfleoedd adfer iddo (yn dibynnu ar y rhaglen, gweler y llawlyfr rhaglen perthnasol), gyda'r modiwl cyffredinol yn cael ei gapio, fel y manylir arno ym mharagraff 12.5 o'r Rheoliadau Asesu. Mae hyn yn unol â chyfanswm yr adferiadau a ganiateir ar draws y sector, fel yr amlinellwyd yng nghyhoeddiad Universities UK 'Understanding Degree Algorithms'.

Adolygwyd a diweddarwyd ein halgorithmau gradd yn 2014.

Yr unig newid eang a wnaed ers hynny oedd adlewyrchu'r ffaith ein bod wedi newid ein marc pasio ôl-raddedig ym mis Medi 2019 o 40% i 50%. Fodd bynnag, ni wnaeth hyn effeithio ar ffiniau gradd Teilyngdod (60%) a Rhagoriaeth (70%).

**Adnoddau Addysgu a Dysgu**

Amrywiodd canran yr anrhydeddau uwch (dosbarthiadau anrhydedd ddosbarth cyntaf ac ail ddosbarth uwch) a ddyfarnwyd i fyfyrwyr rhwng 2014/15 a 2017/18 rhwng oddeutu 63% a 67%. Yn 2018/19 cododd y ffigur i 70.6%, cynnydd o oddeutu 3% ar ffigur 2017/18. Mae'r cynnydd hwn yn cydberthyn â gweithredu Cynllun Strategol diwygiedig (2017) a chyflwyniad ystod o fentrau addysgu a chymorth i fyfyrwyr. Mae'r mentrau hyn, a fwriadwyd yn benodol i wella perfformiad y Brifysgol mewn canlyniadau parhad, ymgysylltu a dyfarnu myfyrwyr, yn cynnwys y canlynol:

- Penodi Dirprwy Is-Ganghellor Ymgysylltu â Myfyrwyr a datblygu Strategaeth Ymgysylltu â Myfyrwyr;
- Newidiadau sylweddol i Bolisi Asesu ac Adborth y Brifysgol gan gynnwys gwell defnydd o'r platfform dysgu electronig Moodle, gofyniad i'r holl adborth gael ei ddarparu'n electronig a rhyddhau adborth yn awtomatig i fyfyrwyr yn unol â gofyniad adborth 20 diwrnod y Brifysgol;
- Gwell Polisi Tiwtora Personol;
- Ymgysylltiad y Brifysgol yn y prosiect gwerthuso adborth ac asesu 'Gwneud i Asesu Gyfrif' a ariennir gan Jisc, a chynnig gwell cefnogaeth i staff academaidd mewn dylunio asesu ac asesu dilys.
- Cynnig dysgu proffesiynol gwell ar gyfer yr holl staff a ddarperir drwy'r Gyfarwyddiaeth Gwella Ansawdd.

**<u>Nodi Arfer Da a Chamau Gweithredu</u>**

Mae'r canlynol yn rhai enghreifftiau o arfer da o ran arferion asesu a marcio, dadansoddi a monitro data neu archwilio allanol:

- I lywio datblygiad cyfres o ymyriadau ynghylch asesu ac adborth mae QED wedi bod yn cynnal dadansoddiad cynnwys ar ymatebion atebion agored o bedair blynedd o arolygon yr ACF, i dynnu allan sylwadau sy'n disgrifio profiad asesu ac adborth ein myfyrwyr ym Met Caerdydd. Defnyddiwyd canfyddiadau'r dadansoddiad hwn i lywio pum grŵp ffocws gyda myfyrwyr, gan drafod eu profiadau asesu ac adborth ymhellach. Crynhowyd y canfyddiadau mewn adroddiad i uwch reolwyr ac fe'u defnyddiwyd i ddatblygu templed byr asesu safonol. Cymeradwywyd hyn gan ein Pwyllgor Ansawdd a Safonau Academaidd ac mae'n cael ei gyflwyno ar draws ein hysgolion. Mae'r templed yn darparu cysondeb o ran sut mae briffiau asesu a meini prawf marcio yn cael eu cyflwyno i fyfyrwyr ac yn cynnwys ystod o wybodaeth a dolenni i agweddau ar asesu ac adborth sy'n cael eu codi'n aml gyda'n myfyrwyr.
- Yn Ysgol Gwyddorau Chwaraeon ac Iechyd Caerdydd, mae QED hefyd wedi defnyddio'r data uchod i lywio gwaith panel o staff academaidd wrth ddatblygu fframwaith asesu ac adborth. Bydd hyn yn cael ei weithredu ar draws holl raglenni israddedig yr ysgol fel rhan o adolygiad cyfnodol o ddarpariaeth israddedig ar draws yr ysgol. Mae hyn yn tynnu o'r llenyddiaeth academaidd ddiweddaraf, gan ddarparu canllawiau a safonau trothwy ar gyfer asesu ac adborth y mae'n rhaid i asesiad ar lefel modiwl a rhaglen eu bodloni. Mae adborth gan gynrychiolwyr myfyrwyr a grwpiau ffocws yn cael ei ddefnyddio i fireinio'r fframwaith a gosod llais y myfyriwr yn ganolog iddo.
- Systemau arholi allanol y Brifysgol gan gynnwys treialu rhaglen Arholwr Allanol yr Academi Addysg Uwch, a sefydlu gwell arholwyr, cyflwyno cynllun brysbennu adroddiadau a datblygu rhwydwaith arholwyr allanol.

Mae arfer da yn y meysydd hyn yn cael ei ledaenu trwy Gyfarwyddiaeth Gwella Ansawdd y Brifysgol trwy weithdai, fideos a chanllawiau ar-lein ac adolygu canllawiau asesu craidd gan gynnwys, yn fwyaf diweddar, disgrifwyr bandiau gradd y Brifysgol. Mae tystiolaeth o arfer dda yn cael ei dynnu o ffynonellau y tu fewn a thu hwnt i’r Brifysgol, gyda’r GGA yn sicrhau

bod y cyfle i gydweithwyr ddysgu o ymarfer effeithiol yn fewnol yn cael ei ymgorffori mewn amrywiaeth o fforymau.